**Cynnwys y rhaglen** – mae'r rhaglen fanwl lawn yn dod yn fuan ond dyma olwg fewnol ar rai o'r sesiynau cyffrous y gall cynrychiolwyr eu disgwyl



## Safon Ansawdd Tai Cymru 2023

Beth mae'n ei olygu i gartrefi a landlordiaid Awdurdod Lleol (cyngor).

## Gwasanaeth atgyweirio: Cynllun hunan-atgyweirio DIY

Trosolwg o'r cynllun gan ClwydAlyn i gefnogi preswylwyr i wneud eu DIY eu hunain gan eu galluogi i gwblhau eu mân atgyweiriadau eu hunain yn eu cartrefi.

## Dysgu o Loegr: Rheoleiddio Tai a Llais Tenantiaid

Beth all tai Cymru ei ddysgu o ddull newydd o reoleiddio tai yn Lloegr yn dilyn cyflwyno safonau defnyddwyr newydd ar gyfer landlordiaid Cymdeithasau Tai a Awdurdodau Lleol yno. Beth fydd hefyd yn ei olygu i Lais Tenantiaid?

## Gosod Rhenti

Cyd-ddylunio 'Polisi gosod rhent gorau'r Byd'. Beth ddylai gael ei gynnwys mewn polisi rhenti a osodwyd gan Lywodraeth Cymru a beth ddylai landlordiaid ei ystyried wrth osod rhenti?

## Cwrdd â'r Ombwdsmon

Bydd y sesiwn addysgiadol hon yn rhoi trosolwg i chi o Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) a'i rôl, yn ogystal â mewnwelediad a gwybodaeth hanfodol gan gynnwys y mathau o gwynion am dai y maent yn delio â nhw, eu pwerau rhagweithiol a Disgwyliadau ar ddarparwyr Tai.

## Deallusrwydd Artiffisial a Gwasanaethau Tai

Mae Deallusrwydd Artiffisial wedi ffrwydro ar gyflymder anhygoel ac wedi denu llawer iawn o sylw cyhoeddus: da a drwg. Sut gallai fod o fudd i Denantiaid a landlordiaid?

## Cartrefi ynni isel: Gwersi a ddysgwyd o Ôl-ffitio

Beth allwn ni ei ddysgu o raglenni landlordiaid o bob rhan o Gymru i ôl-osod systemau gwresogi ynni isel yng nghartrefi Tenantiaid. Beth sy'n gweithio? beth sydd ddim? ac a yw'n gwneud gwahaniaeth?

## Iechyd Cyhoeddus Cymru: Gadael neb ar ôl

Clywch am ddull blaengar newydd o wella iechyd a lles i bawb yng Nghymru drwy gysylltiadau lleol cryfach . Beth allai ei olygu i chi, eich cymuned a landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru?

## Cwrdd â'r Rheoleiddiwr: Rheoleiddio Cymdeithasau Tai

Mae Llywodraeth Cymru yn rheoleiddio Cymdeithasau Tai yng Nghymru i ddiogelu tenantiaid a buddsoddiad mewn tai. Clywch gan dîm rheoleiddio Llywodraeth Cymru a chael gwybod beth sy'n newid ym maes Rheoleiddio, beth mae'r Rheoleiddwyr yn ei weld a sut mae rheoleiddio yn amddiffyn tenantiaid.

## Siaradwr Agoriadol



**Y Farwnes Smith o Lanfaes, Aelod o Dŷ Arglwyddi'r Deyrnas Unedig**